OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 11

## GRANTIAU AR GYFER DIBYNYDDION

### PENNOD 4

### GRANT GOFAL PLANT

**Uchafswm y grant gofal plant**

**76.**—(1) Swm y grant gofal plant sy'n daladwy yw 85% o ffioedd gofal plant rhagnodedig wythnosol y myfyriwr cymwys, hyd at yr uchafswm wythnosol—

(a) a bennir yn Nhabl 13, neu

(b) pan fo paragraff (4) yn gymwys, a bennir yn y paragraff hwnnw.

(2) Yn Nhabl 13—

(a) mae Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae uchafswm wythnosol y grant gofal plant yng Ngholofn 3 yn daladwy mewn perthynas â hi;

(b) mae Colofn 2 yn pennu nifer y plant dibynnol y mae'r symiau a bennir yng Ngholofn 3 yn ymwneud â hwy;

(c) mae Colofn 3 yn pennu uchafswm wythnosol y grant gofal plant sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r cofnodion cyfatebol yng Ngholofnau 1 a 2, pan fo'r cais am grant gofal plant yn nodi darparwr gofal plant.

**Tabl 13**

| *Colofn 1*<br><br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br><br>*Nifer y plant dibynnol* | *Colofn 3*<br><br>*Uchafswm wythnosol* |
|---|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 | Un plentyn dibynnol | £161.50 |
| | Mwy nag un plentyn dibynnol | £274.55 |

(3) Pan fo gan y myfyriwr cymwys fwy nag un plentyn dibynnol, y swm a bennir yn y cofnod priodol yng Ngholofn 3 yw'r uchafswm wythnosol sy'n daladwy, ni waeth faint o blant sy'n cael gofal plant.

(4) Pan na fo cais y myfyriwr cymwys am grant gofal plant yn nodi'r darparwr gofal plant, caiff Gweinidogion Cymru gyfyngu—

(a) ar swm y grant gofal plant a delir i'r myfyriwr i 85% o'r ffioedd gofal plant rhagnodedig hyd at uchafswm wythnosol o £115;

(b) ar y taliad o'r grant gofal plant i un chwarter o'r flwyddyn academaidd.

(5) At ddibenion cyfrifo swm grant gofal plant, mae wythnos yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Sul.

(6) Os eir i ffioedd gofal plant rhagnodedig mewn cysylltiad ag wythnos sy'n dod yn rhannol o fewn y flwyddyn academaidd y mae grant gofal plant yn daladwy mewn cysylltiad â hi ac yn rhannol y tu allan i'r flwyddyn academaidd honno, cyfrifir yr uchafswm wythnosol drwy gymhwyso'r fformiwla a ganlyn—

$$\frac{A \times B}{7}$$

Pan—

A yw'r uchafswm wythnosol sy'n gymwys, a

B yw nifer y diwrnodau yn yr wythnos honno sy'n dod o fewn y flwyddyn academaidd.